

At Weinidogion Cymru,

Dyletswyddau Adrodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Yn unol â'r dyletswyddau o dan Adran 7 (3) a 10 (2) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, fe welwch isod adroddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

<p>Y camau a gymerwyd i hyrwyddo'r defnydd o lwybrau teithio llesol.</p>	<p>Yn ystod 2017 - 2018, mae'r Cyngor wedi cymryd rhan yn y gweithgareddau canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none">• Gweithredu rhaglen barhaus o waith i ddiweddar/gwella rhannau o droedffyrdd ledled y Fwrdeistref Sirol gan gynnwys gosod wyneb newydd, darparu ymylon palmant isel, rheiliau newydd a gwaith lledaenu, gyda rhaglen barhaus i wneud yr holl oleuadau strydoedd i rai LED.• Parhau i gymryd rhan mewn mentrau i hyrwyddo RhCT fel cyrchfan ar gyfer cerdded a beicio.• Parhau i gymryd rhan yn Rhaglen Teithiau Iach (mewn ysgolion), ar y cyd â Sustrans.• Adnewyddu'r dudalen teithio llesol a beicio ar wefan y Cyngor. Roedd y newidiadau'n cynnwys darparu rhagor o wybodaeth am gerdded a beicio, e.e. cyngor diogelwch, ymddygiad beicwyr wrth ddefnyddio manau i bawb, argaeledd cyrsiau hyfforddi lleol a manylion y Map Rhwydwaith Integredig a chynigion a gafodd eu cyflwyno ger bron Llywodraeth Cymru a'u cymeradwyo ganddynt.
--	---

	<ul style="list-style-type: none">• Paratoi Canllaw Teithio Cynaliadwy ar gyfer canol tref Pontypridd o'r cymunedau cyfagos, pa yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am gerdded, beicio a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus.• Ailgyflwyno Cynllun Cycle2Work ar y cyd â Halfords fel rhan o Raglen Buddion Staff y Cyngor.• Cynnal nifer o sesiynau beicio gyda'r nos yn ystod yr haf ar hyd llwybrau beicio lleol, o'r enw 'Seiclo yn y Tywyllwch'.• Parhau i gefnogi'r fenter cerdded a beicio 'Beat the Street' ar y cyd ag Intelligent Health.• Comisiynu astudiaeth i edrych ar y posibilrwydd o gynyddu teithiau beic i orsafoedd rheilffyrdd lleol.• Darparu hyfforddiant beicio o Safonau Cenedlaethol i 693 o ddisgyblion yn 2017 - 2018 drwy roi'r hyfforddiant angenrheidiol i feicwyr ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn fwy diogel a mwy cymwys.• Darparu hyfforddiant Kerbcraft i 1,168 o ddisgyblion yn 2017 - 18 i roi sgiliau ac ymwybyddiaeth o faterion diogelwch ar y ffordd i ddisgyblion ifainc er mwyn iddyn nhw fod yn gerddwyr mwy diogel.• Cynnal cyfarfodydd rheolaidd o weithgor beicio a gafodd ei sefydlu. Mae'r cyfranogwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o adrannau amrywiol y Cyngor,
--	--

	<p>Sustrans ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r gweithgor yn rhannu gwybodaeth ac ymarferion gorau.</p>
<p>Y camau a gymerwyd i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau a gwelliannau cysylltiedig</p>	<p>Mae'r wybodaeth ganlynol yn cyfeirio at 2017 - 2018.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mynd i'r afael ag adborth amrywiol a ddaeth i law drwy ymgynghoriadau cyhoeddus teithio llesol diweddar, ac ymateb i'r adborth hwnnw. Er enghraifft, mae adolygiad yn cael ei gynnal ynghylch yr is-ddeddf bresennol sy'n golygu bod angen i feicwyr ddod oddi ar eu beiciau wrth deithio drwy Barc Aberdâr neu Barc Coffa Rhyfel Ynysangharad ym Mhontypridd. • Gwella nifer o briffyrdd a chyffyrdd sydd o fudd i feicwyr. Er enghraifft, ymgymryd â gwaith ar yr A473/A4119 i hwyluso man croesi ar gyfer beicwyr a cherddwyr ynghyd â mathau eraill o waith paratoi gerllaw ymlaen llaw, cyn bwrw ymlaen â datblygiadau mawr sydd wedi'u cynllunio. Hefyd, darparu gwell cyfleusterau ar gyfer beicwyr i'w helpu i groesi'r gyffordd yn Beddau Halt a chyffordd yr A473/A4222 ger Tonysguboriau. • Cwblhau nifer o Gynlluniau 'Llwybrau Diogel mewn Cymunedau' i gydfynd â'r cynllun ad-drefnu ysgolion arfaethedig, a chreu llwybrau cerdded a beicio newydd mewn ardaloedd lleol. e.e. ardal Y Porth.

	<ul style="list-style-type: none"> • Parhau i symud ymlaen i'r camau datblygu nesaf, ac ar y cyd â sefydliadau partner, ailagor y twneli rheilffordd segur rhwng Abernant a Merthyr Tudful a rhwng Blaen-cwm a Blaengwynfi i feicwyr a cherddwyr.
<p>Y costau sydd ynghlwm â llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol a chyfleusterau cysylltiedig a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol lawn flaenorol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • £10,000 - gosod a newid goleuadau ar hyd y llwybr cymunedol rhwng Coed y Cwm ac Ysgol Uwchradd Pontypridd. • £310,000 - adeiladu llwybr cymunedol newydd yn Ystrad Rhondda gan ddarparu gwell cysylltiadau ar gyfer beicwyr a cherddwyr i'r orsaf reilffordd, Stad Ddiwydiannol y Gelli, Ysgol Hen Felin, Ysgol Gynradd Pontrhondda a Chanolfan Chwaraeon Rhondda Fawr. • £375,000 - adeiladu estyniad i'r llwybr cymunedol rhwng Tonysguboriau a Llantrisant (Cross Inn) i gysylltu â Llwybr Cymunedol Pentre'r Eglwys yn y pen draw. • £225,000 - adeiladu Cynllun Llwybrau Diogel mewn Cymunedau yn Y Porth. (yn cynnwys cyfraniad o £105,000 gan y Cyngor). • £454,200 - rhaglen o waith i wella/diweddaru troedffyrdd yn RhCT.

Yn ychwanegol at yr uchod (dewisol):

<p>Gwariant dangosol ar gyfer llwybrau a chyfleusterau teithio llesol newydd a gwelliannau i lwybrau teithio llesol presennol</p>	<ul style="list-style-type: none"> • £57,153 - (wedi'i ariannu'n rhannol) i wella'r strwythur ar NCN 8 (Taith Taf), Pontypridd.
---	--

<p>a chyfleusterau cysylltiedig wedi'u hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan drydydd parti.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • £75,000 - croesfan Twcan newydd yn Stad Ddiwydiannol Trefforest. • £65,000 - (yn rhan o gyfraniad mwy gan y Gronfa Loteri Fawr) i ddatblygu llwybrau teithio llesol yn y coedwigoedd ger Ynysybwll.
<p>Hyd y llwybrau newydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (llwybrau troed newydd) 2.8km Beicio (ar y ffordd) 0.6km Mannau i Bawb 1.5km</p>
<p>Hyd y llwybrau sydd wedi'u gwella:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cerdded - Beicio - Mannau i Bawb 	<p>Cerdded (troedffyrdd wedi'u gwella) 5.1km Beicio (ar y ffordd) 0km Mannau i Bawb 0km</p>
<p>Cyfleusterau teithio llesol newydd a gwell</p>	<ul style="list-style-type: none"> • 4 cyfleuster newydd i storio beiciau ym Mhont-y-clun yn dilyn adnewyddu maes parcio yng nghanol y pentref. • 8 cyfleuster newydd i storio beiciau, man storio sgwteri a man storio ar gyfer 12 helmed yn Ysgol Gynradd Pontrhonna. 10 o gyfleusterau storio beiciau yng Nghanolfan Chwaraeon y Rhondda Fawr ar ôl cwblhau rhan o'r llwybr cymunedol newydd yn y Rhondda Fawr. • Atgyweirio ac adfer y bont droed dros yr A4059 ger Ysgol Gyfun Aberpennar ac Ysbyty Cwm Cynon.

Gwybodaeth Ychwanegol (Dewisol):

Rwy'n cadarnhau y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi ar-lein, yn unol â'r Canllaw Cyflenwi statudol.

Chris Bradshaw
Prif Weithredwr


